OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 810 (Cy.90)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*21 Mawrth 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 31(1), 32 a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2001" ("*the 2001 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**2**).

Ffurf y trefniadau amgen

2.—(1) Diwygir Rheoliad 4(1) o Reoliadau 2001 fel a ganlyn.

(2) Dilëir y gair "awdurdod" yn y llinell gyntaf ac yn ei le rhoddir "awdurdodau".

(3) Ym mharagraff (a) mewnosodir ar ôl "Bwrdd" y geiriau

"a fydd hefyd, yn ddarostyngedig i reoliad 4(2)(d), yn bwyllgor gwasanaethau cymdeithasol iddo yn unol ag Adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol 1970" (**3**).

3.—(1) Diwygir Rheoliad 4(2) o Reoliadau 2001 fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd paragraff (c) dileïr y gair "ac" ac ar ôl paragraf (ch) mewnosodir:

"(d) is-bwyllgor i'r Bwrdd i fod yn bwyllgor gwasanaethau cymdeithasol iddo yn unol ag Adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol 1970 ;

(dd) pwyllgor apelau cyflogaeth; ac

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) O.S. 2001/2284 (Cy.173).
(**3**) 1970 p.42.

(e) mwyafrif o bedwar pwyllgor arall, y gall Rheolau Sefydlog yr awdurdod ddarparu ar eu cyfer, ac a fyddant ond yn arfer swyddogaethau nad ydynt, yn unol â'r Rheoliadau hyn neu unrhyw ddeddfiad arall, yn gyfrifoldeb Bwrdd awdurdod lleol hyn ar yr amod bod unrhyw benderfyniad i sefydlu pwyllgor o'r fath yn cael ei hysbysebu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad."

Gofynion ar gyfer pwyllgorau ac is-bwyllgorau

4.—(1) Diwygir Rheoliad 5(6) o Reoliadau 2001 fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r geiriau "Caiff y Bwrdd" mewnosodir y geiriau:

"Ni chaiff y Bwrdd gynnwys cadeirydd na dirprwy gadeirydd yr awdurdod lleol ond fe gaiff".

Swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd

5.—(1) Diwygir Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i fwrdd awdurdod) i Reoliadau 2001 fel a ganlyn.

(2) Ychwanegir at ddiwedd paragraff 14 o Ran I (Swyddogaethau Amrywiol) yn ngholofn (1)

"ac i benderfynu'r amodau a thelerau yn amodol i'r rheini y daliant eu swydd (gan gynnwys gweithdrefnau i'w diswyddo)."

(3) Ychwanegir ar ddiwedd Rhan I (Swyddogaethau Amrywiol):

(a) yng ngholofn (1):

"**17.** Y pŵer i wneud gorchymyn yn enwi man yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol.";

(b) yng ngholofn (2):

"Adran 13(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16.)."(**4**);

(c) yng ngholofn (1):

"**18.** Y pŵer i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaethau Pobl Ifanc."

(ch) yng ngholofn (2):

"Adrannau 123,124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21)."(**5**);

(d) yng ngholofn (1):

"**19.** Y pŵer i gymeradwyo Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.";

(dd) yng ngholofn (2):

"Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000".

(**4**) 2001 p.16.
(**5**) 2000 p.21.